

(p6))

**DYDD MERCHER 27 Mehefin 2001
ADRODDIADAU AR GRONFEYDD STRWYTHUROL**

Crynodeb

1. Mae'r papur amgaeedig yn amlinellu'r trefniadau a gynigir ar gyfer rhoi adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor ar y ffordd y gweithredir rhaglenni cronfeydd strwythurol.
2. Rheolir y trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol gan Reoliad y Comisiwn a'r penodau ar roi'r rhaglenni ar waith yn y Dogfennau Rhaglennu Sengl a'r Dogfennau Rhaglennu Gweithredol.
3. Mae gan y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni ddyletswydd i sicrhau bod eu rhaglenni arbennig hwy yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. At y diben hwn mae gofyn iddynt edrych yn achlysurol pa gamau a gymerwyd i gyflawni amcan penodol y rhaglenni.
4. Yn unol â Rheoliad y Comisiwn, mae gofyn i WEFO baratoi adroddiadau rheolaidd, ar ffurf ac adegau a bennwyd ymlaen llaw, i'w cymeradwyo gan y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni i ddechrau ac yna i'w cyflwyno i'r Comisiwn. Cynigir y dylid sefydlu system annibynnol ar wahân o gyflwyno adroddiadau yn rheolaidd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar y modd y rhoddir y cronfeydd strwythurol ar waith.

Argymhelliad

5. Bod y Pwyllgor yn nodi'r papur amgaeedig.

WEFO
Mai 2001

ADRODDIADAU AR GRONFEYDD STRWYTHUROL : EDC 08-01

MONITRO RHAGLENNI AMCANION 1, 2 a 3 YN FFISEGOL AC ARIANNOL AR GYFER

Cefndir

1. Erthyglau 36-43 yn Rheoliad y CE 1260/1999 a phenodau'r Dogfennau Rhaglennu perthnasol ar roi'r rhaglenni ar waith sy'n rheoli gofynion monitro a gwerthuso Rhaglenni Amcanion 1, 2 a 3. Asesir ansawdd ac effeithiolrwydd y modd y gweithredir y Rhaglenni trwy fesur i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni'r dangosyddion ariannol a'r dangosyddion effaith a ddiffinnir yn y Dogfennau Rhaglennu. Yn gyffredinol, mae gofyn i Bwyllgorau Monitro'r Rhaglenni archwilio a chymeradwyo'r amryw adroddiadau monitro cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn. Amlinellir yr adroddiadau hyn, y gellir hefyd eu darparu i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, yn Atodiad 1.

2. Ym mwyafrif yr achosion, rhoddir yr adroddiadau ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol (y Pwyllgor Datblygu Economaidd) er gwybodaeth a thrafodaeth. Mae'n anorod y bydd cyfyngiadau ar y broses ffurfiol o gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar hynt rhaglenni oherwydd bod yr adroddiadau heb eu cyflwyno'n ffurfiol i Bwyllgorau Monitro'r Rhaglenni, neu heb eu cymeradwyo gan y Pwyllgorau hyn, neu nad oes digon o amser rhwng cyfarfodydd y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni a chyfarfod dilynol y Pwyllgor Datblygu Economaidd i baratoi deunydd wedi'i ddiweddarau'n briodol.

Trefniadau Adrodd Atodol a Gynigir

3. Cynigir y dylid sefydlu gweithdrefn atodol, ar wahân, ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Byddai'r adroddiadau'n cael eu paratoi'n benodol ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd gyda'r fantais y gellid trafod holl raglenni'r cronfeydd strwythurol. Gan na fyddai amserlen cyfarfodydd y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni a rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyfyngu arnynt, gallent gynnwys dadansoddiad mwy ystyriol o weithgaredd y cronfeydd strwythurol ledled Cymru.

4. Cynigir y dylai'r drefn atodol gynnwys adroddiad cynnydd chwarterol ar hynt holl raglenni'r cronfeydd strwythurol. Rhaid cytuno â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar yr amserlen, ond ymddengys y byddai adroddiadau ym misoedd Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref yn briodol.

5. Bydd yr adroddiad chwarterol wedi ei seilio ar y data diweddaraf sydd ar gael ynghylch ymrwymadau, taliadau, arian cyfatebol a'r hyn a gynhyrchir ar lefel y mesurau. Adroddir arnynt yn ôl eu Blaenoriaeth, neu, yn achos adroddiadau Amcan Un, byddant wedi'u grwpio yn ôl y pedair elfen strategol ganlynol: Asedau Busnes, Asedau Cymunedol,

Asedau Gwledig ac Asedau Adnoddau Dynol.

6. Er eglurder, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, caiff y data ei gyflwyno ar ffurf tabl neu graff. Mae Atodiad 2 yn cynnwys enghreifftiau o'r math o gyflwyniadau yr ystyrir eu defnyddio.

Adroddiadau Eraill

7. Adroddiad Rheolaidd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd – bydd adroddiad y Gweinidog yn parhau i gynnwys data pennawd ar hynt Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, fel y bo'n briodol.
8. Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni – Bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni yn parhau i wneud adroddiadau llafar cryno ar ganlyniad cyfarfodydd y pwyllgorau hynny yng nghyfarfod nesaf mwyaf cyfleus y Pwyllgor Datblygu Economaidd. (Cyn bob cyfarfod, bydd Clerc y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn tynnu sylw'r Aelodau at y ffaith bod papurau'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni ar gael)
9. Prosiectau Unigol – Mae gwybodaeth ynghylch prosiectau unigol ar gael i aelodau ar wefan WEFO.
10. Adroddiadau eraill a chyngor ar faterion penodol fel sydd eu hangen.

Amserlen

11. Ceir amserlen flynyddol fras sy'n nodi pa mor aml y bwriedir adrodd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn Atodiad 3.

Goblygiadau o ran Adnoddau

12. Mae goblygiadau o ran adnoddau wrth baratoi adroddiadau chwarterol ychwanegol ond mae'r data monitro a fydd yn sail i'r adroddiadau yn cael ei gasglu yn barod gan WEFO fel rhan o'r broses barhaus o reoli'r rhaglenni ac fel sail i'r adroddiadau ffurfiol sy'n ofynnol gan y Comisiwn a'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni. Rhagwelir, felly, y gellir cynnwys yr adroddiadau atodol o fewn yr adnoddau staff cyfredol.

Argymhelliad

13. Argymhellir bod y Pwyllgor yn mabwysiadu'r gweithdrefnau adrodd atodol a gynigir.

WEFO
Mai 2001

Mae fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnwys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atodiadau hyn

ar gael yn Gymraeg